OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2001 No. 1076

# Rheoliadau Taliadau Cymunedol, Y Dreth Gyngor ac Ardrethu Annomestig (Gorfodi) (Llysoedd Ynadon) (Cymru) 2001

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Taliadau Cymunedol, Y Dreth Gyngor ac Ardrethu Annomestig (Gorfodi) (Llysoedd Ynadon) (Cymru) 2001 .

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Ebrill 2001.

(3) Daw rheoliad 3 i rym ar y diwrnod y daw adran 90 (trosglwyddo swyddogaethau clercod i brif weithredwyr) o Ddeddf Cyfle i Gael Cyfiawnder 1999 i rym(**1**)).

(4) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig.

(**1**) 1999 p.22. Daw adran 90 i rym ar y diwrnod a bennir gan yr Arglwydd Ganghellor drwy orchymyn o dan adran 108(1).